

CYNGOR SIR Y FFLINT
20 HYDREF 2020

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth
20 Hydref 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol, Ymgynghorydd Perfformiad Strategol, Cyfrifydd Cronfa Bensiynau Clwyd, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

12. COFNODION

Cofnodion 9 Medi 2020

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo, yn amodol ar ddiwygiad gan y Cynghorydd Peers ar gofnod 5(v), a chafodd ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Dunbar a Jean Davies. Ar yr un eitem, cytunodd y swyddogion i rannu'r protocol ar gyfer Aelodau sy'n mynd i gyfarfod fel Arsyllwr i gael siarad mewn Pwyllgor Archwilio a Chraffu, gan nodi y byddai angen i Aelodau ofyn am fynediad i gyfarfodydd o bell os oeddynt yn dymuno mynychu.

Cofnodion - 29 Medi 2020

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo, yn amodol ar ddiwygiad gan y Cynghorydd Peers ar gofnod 10, a chafodd ei gynnig a eilio gan y Cynghorwyr Bithell a Dunbar. Fel cam gweithredu heb ei gwblhau ar yr un eitem, byddai cais y Cynghorydd Peers i drafod gyda swyddogion er mwyn egluro'r geiriad yn cael ei ddilyn.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y ddau ddiwygiad, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

13. DATGAN CYSYLLTIAD

Dyweddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai cysylltiad personol yn cael ei gofnodi ar gyfer pob Aelod ar eitem Tâl (eitem rhif 11 ar yr agenda).

Datganodd y Cynghorwyr Bernie Attridge, Chris Bithell, Ian Dunbar, Billy Mullin, Hilary McGuill, Ted Palmer, Neville Phillips, Kevin Rush, Aaron Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas ac Andy Williams gysylltiad personol yn y Datganiad ar Bolisïau Tâl (eitem rhif 9 ar y rhaglen) oherwydd pobl agos atynt sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Aaron Shotton gysylltiad personol o ran y cyfeiriad yn yr adroddiad ar Protocol Aelod/Swyddog (eitem rhif 12 ar y rhaglen).

Datganodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson gysylltiad personol ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol (eitem rhif 7 ar y rhaglen) am ei fod yn ddarparwr gwasanaeth bws.

14. CYDNABOD Y GWOBRAU I BOBL LEOL AR RESTR ANRHYEDDAU PEN-BLWYDD Y FRENHIENS

Roedd y Cadeirydd yn falch iawn o allu llongyfarch chwe pherson lleol a fyddai'n derbyn gwobrau ar Restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines a gyhoeddwyd ar 10 Hydref. Yr unigolion yma oedd Y Gwir Anrhydeddus David George Hanson, y Cynghorydd David Evans, Eric Harries Peake, Bethan Sian Reece, John Challenger a Robert Alan Forrester. Dywedodd eu bod wedi derbyn llythyr gan y Cyngor i gydnabod eu cyflawniadau a byddent yn cael eu gwahodd i fynychu seremoni ffurfiol yn Neuadd y Sir pan fyddai pethau'n dychwelyd i normal.

Fe ailadroddodd y Cynghorydd Ian Roberts ac Aelodau eraill ei theimladau, gan longyfarch y chwech.

15. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Fe achubodd y Cadeirydd ar y cyfle i atgoffa pawb am y cyfnod atal byr cenedlaethol oedd ar y gorwel roedd y Prif Weinidog wedi ei gyhoeddi, a diolchodd i drigolion Sir y Fflint am eu cydweithrediad i ddelio â'r sefyllfa anodd yma.

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llawn ar lafar am y sefyllfa. Roedd o ac Arweinydd y Cyngor yn parhau i fod yn rhan o drafodaethau cenedlaethol gyda Gweinidogion a gweision sifil am y camau nesaf. Dywedodd tra bod rhaid i rai gwasanaethau gau dros y cyfnod atal byr, byddai gwasanaethau eraill o dan ddisgresiwn lleol yn parhau lle y bo'n bosibl. Byddai'r Aelodau'n cael eu diweddarau'n wythnosol a chawsant eu hannog i gysylltu â'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol os oeddynt angen eglurhad. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith trwy gydol y sefyllfa argyfyngus.

Rhoddodd y Cadeirydd deyrnged i'r Arglwydd Barry Jones. Roedd Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir yn cael ei ail-enwi ar ei ôl o i gydnabod ei 50 o wasanaeth cyhoeddus. Gan fod y digwyddiad yma wedi cael ei ganslo yn sgil y sefyllfa argyfyngus, byddai dathliad ffurfiol o'i gyflawniad yn cael ei drefnu yn y dyfodol.

16. DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorydd McGuill ddeiseb ar ran preswylwyr Moel View ac Overdale ym Mynydd Isa er mwyn mynd i'r afael â phryderon diogelwch parcio. Cyflwynwyd deiseb hefyd gan y Cynghorydd Connah ar ran preswylwyr Prince William Gardens yn Mancot er mwyn mynd i'r afael â phryderon diogelwch parcio.

Yn unol â'r broses arferol, byddai'r deisebau'n cael eu pasio at y Prif Swyddog perthnasol er mwyn ymateb i'r prif gynigydd. Byddai'r adroddiad blynyddol am ganlyniadau'r deisebau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei dderbyn ym mis Ebrill 2021.

17. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i ardystio Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20, fel yr argymhellwyd gan y Cabinet, er mwyn ei gyhoeddi cyn y dyddiad cau. Adroddiad statudol yw hwn sy'n rhoi trosolwg ôl-weithredol o berfformiad yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2019/20, gan ddangos cynnydd cadarnhaol yn erbyn prif weithgareddau a chanlyniadau dangosyddion perfformiad.

Rhoddodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol ac Ymgynghorydd Perfformiad Strategol gyflwyniad yn ymdrin â'r canlynol:

- Trosolwg o Berfformiad 2019/20
- Cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau'r Cyngor
- Cynnydd yn erbyn Is-flaenoriaethau
- Uchafbwyntiau
- Meysydd i'w Gwella
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Trosolwg o Berfformiad - Cynllun y Cyngor
- Trosolwg Cenedlaethol
- Trosolwg o Berfformiad
- Y Camau Nesaf

Dangosodd trosolwg o berfformiad bod cynnydd da dros y blynyddoedd diweddar wedi cael ei gynnal yn 2019/20. Roedd y pedwar maes a nodwyd ar gyfer gwelliant yn parhau i gael eu monitro, gyda chynnydd eisoes yn cael ei wneud ar fynd i'r afael â digartrefedd ac absenoldeb salwch.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gynig gan y Cynghorydd Carolyn Thomas a'i eilio gan y Cynghorydd Mullin. Fel Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad, rhoddodd y Cynghorydd Thomas deyrnged i'r cyflawniadau yn y meysydd hynny. Diolchodd i'r tîm Gwasanaethau Stryd a

phreswylwyr am berfformiad cryf yn erbyn targedau ailgylchu gan dynnu sylw at amryw o ganlyniadau cadarnhaol megis rhaglen llenwi tyllau yn y ffordd, cyflwyno cynlluniau priffyrdd a mentrau amrywiol roedd y tîm Cefn Gwlad wedi eu cyflawni. Roedd hi hefyd yn croesawu'r gwaith ar newid hinsawdd/lleihau carbon a oedd yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

Diolchodd y Cyngorydd Richard Jones i swyddogion am yr adroddiad cadarnhaol. Yn ei farn o, fe ddylai fod yna fwy o aliniad rhwng yr amcanion yn y Cynllun Llesiant a Chynllun y Cyngor a fyddai'n cyd-fynd yn well â'r portffolios. Gan nodi'r dirywiad disgwylidig yng nghyflwr ffyrdd dosbarth A a B, roedd yn cydnabod y gallai'r gwelliant yn ffyrdd dosbarth C fod am eu bod wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen llenwi tyllau ffordd.

Gan ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod y gwaith wedi dechrau ar Gynllun y Cyngor 2020/21 a byddai'r sylwadau yma'n cael eu hystyried yn llawn. Byddai'r cyfarfod ym mis Rhagfyr yn gyfle i ystyried y fformat a sut oedd y ffordd orau o gyflwyno'r bwriad, cynnwys a gwerthoedd y tu ôl i Gynllun y Cyngor. Byddai swyddogion yn darparu eglurhad am y nifer gwahanol o fesurau atebolrwydd cyhoeddus (MAC) ar ôl y cyfarfod.

Yn ystod yr eitem, fe ganmolodd nifer o Aelodau yr ystod o gyflawniadau a diolch i swyddogion am eu gwaith yn ystod y pandemig.

Canmolodd y Cyngorydd Paul Shotton y tîm yng ngwasanaeth gofal dydd Hwb Cyfle mewn partneriaeth â Home Farm Trust, ynghyd â chwblhau'r gwaith adeiladu yn Ysgol Uwchradd Cei Connah.

Tra'n nodi llwyddiant Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol y Cyngor, fe awgrymodd y Cyngorydd Peers bod timau Strategaeth Tai a Chynllunio yn rhoi ystyriaeth fanwl i fynd i'r afael â diffyg cyflenwad o dai fforddiadwy gan y sector preifat. Gofynnodd am gynnydd o ran datblygiad Fframwaith Caffael Gogledd Cymru oedd fod i fynd yn fyw ym mis Awst 2020. Gan ymateb, rhannodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) neges oedd yn cyfeirio at fframwaith adeiladu newydd gan ddefnyddio contractwyr Cymreig lleol i adeiladu tai ar gyfer Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol a bod y contract bellach yn fyw.

Canmolodd y Cyngorydd Dunbar raglen adeiladu tai y Cyngor a'r gwaith i fynd i'r afael â digartrefedd. Pan ofynnwyd am effaith Covid-19 ar y meysydd hynny, rhoddodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) ddiweddariad byr, ac roedd yn falch o adrodd cynnydd sylweddol gan y tîm yn lleihau'r nifer o bobl oedd yn cysgu allan. Diolchodd y Cyngorydd Dunbar a'r Cadeirydd i'r Prif Swyddog a'i dîm am eu gwaith gyda hyn.

Fel Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, mynegodd y Cyngorydd Christine Jones ei balchder yn Hwb Cyfle, ac fe ganmolodd datblygiad model micro-ofal mewn ardaloedd gwledig a menter Mockingbird i gefnogi gofaluwr maeth. Diolchodd i bob gweithiwr am eu rhan i sicrhau mai Sir y Fflint oedd y Cyngor Cyfeillgar i Ddementia cyntaf yng Ngogledd Cymru.

Fel Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, canmolodd y Cyngorydd Bithell berfformiad cryf ar safonau diogelwch bwyd a cheisiadau cynllunio. Gan ymateb i sylwadau'r Cyngorydd Peers, dywedodd bod

cydweithwyr Tai a Chynllunio yn trafod y cyflenwad o dai fforddiadwy gan y sector preifat yn rhagweithiol.

Gan fod yr argymhellion wedi'u cynnig a'u heilio, cafwyd pleidlais a chymeradwywyd yr argymhellion.

PENDERFYNWYD:

Bod Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20 yn cael ei gymeradwyo, fel yr argymhellwyd gan y Cabinet.

18. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20 i'w gymeradwyo, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet. Tynnodd sylw at y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad a gadarnhaodd fod y swyddogaeth Rheoli Trysorlys wedi gweithredu o fewn y cyfyngiadau a nodwyd yn y Strategaeth ar gyfer y cyfnod. I gynorthwyo â datblygu Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22, byddai sesiwn hyfforddi gydag ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael ei gynnal o bell ar 9 Rhagfyr 2020. Er mwyn i rai Aelodau ofyn cwestiynau, byddai swyddogion yn edrych ar y posibilrwydd o sesiwn fin nos ychwanegol.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adrodd ei gynnig gan y Cynghorydd Chris Dolphin a ddiolchodd i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm am eu gwaith. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Glyn Banks gan annog pob aelod i fynychu'r sesiwn hyfforddi a fyddai'n cael ei gynnal yn fuan.

Fe nododd y Cynghorydd Peers ddyraniad Bwrdd Benthycy Gwaith Cyhoeddus ar gyfer NEW Homes, a gofynnodd am y cynlluniau ar gyfer y balans. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y benthyciadau wedi cael eu cymryd er mwyn manteisio ar y cyfraddau llog isel i fodloni gofyniad y Cyngor ar gyfer benthycy hir dymor, ac nid oeddynt wedi cael eu dyrannu i brosiectau cyfalaf penodol.

Gan fod yr argymhellion wedi'u cynnig a'u heilio, cafwyd pleidlais a chymeradwywyd yr argymhellion.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2019/20.

19. DATGANIAD DIWYGIEDIG AR BOLISÏAU TÂL AR GYFER 2020/21

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar Ddatganiad ar Bolisïau Tâl blynyddol ar gyfer 2020/21 gan grynhoi'r ymagwedd bresennol tuag at gyflog a thâl mewn cyd-destun sefydliadol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n rwymedigaeth statudol i gyhoeddi'r Datganiad ar Bolisïau Tâl bob blwyddyn cyn dyddiad cau penodol. Cafodd yr Archwiliad Cyflog Cyfartal diweddaraf ei rannu er gwybodaeth hefyd.

Dyweddod yr Uwch-Reolwr ar gyfer Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol bod rhai rhannau wedi cael eu hailysgrifennu er mwyn gwella llif yr adroddiad a bod gohiriad yr adroddiad yn gynharach eleni wedi galluogi i ddata dyfarniad cyflog 2020 gael ei gynnwys yn ogystal â newidiadau cenedlaethol. Rhoddodd drosolwg o'r prif newidiadau yn cynnwys rhan ychwanegol ar derfyn ar daliadau gadael y sector cyhoeddus a chadarnhaodd y byddai'r rhain yn cael eu gweithredu ar 4 Tachwedd 2020. Bydd rhagor o wybodaeth am yr effaith ar yr awdurdod yn cael ei rannu maes o law.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Mullin a Palmer, a diolchodd y ddau i'r tîm am eu gwaith.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at drafodaeth yn y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd am ymatebion amserol swyddogion i ymholiadau Aelodau gan ofyn a oedd hyn yn ystyriaeth yng ngwerthusiadau blynyddol a chanol blwyddyn Prif Swyddogion. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn gyfrifol am gynnal gwerthusiadau pob Prif Swyddog oedd yn ymdrin ag amcanion perfformiad ar gyfer y portffolios perthnasol. Fe ailadroddodd y cyngor y dylai unrhyw faterion o dan berfformio gael eu hadrodd naill ai iddo fo neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid, fel y nodir yn y protocol y cytunwyd, er mwyn iddynt gymryd camau priodol.

Gan fod yr argymhellion wedi'u cynnig a'u heilio, cafwyd pleidlais a chymeradwywyd yr argymhellion.

PENDERFYNWYD:

Bod y Datganiad ar Bolisiâu Tâl ar gyfer 2020/21 yn cael ei gymeradwyo a bod yr Archwiliad Cyflog cyfartal yn cael ei nodi.

20. RHEOLAU GWEITHDREFN ARIANNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y Rheolau Gweithdrefn Ariannol arfaethedig oedd wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn mân ddiwygiad gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd.

Wrth gynnig yr argymhelliad, diolchodd y Cynghorydd Chris Dolphin i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm am eu gwaith. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Banks.

Fe soniodd y Cynghorydd Richard Jones am gyfeiriadau at werth am arian a gofynnodd sut y gallai hyn gael ei fesur yn effeithiol, ac fe awgrymodd y gallai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol drafod hyn ymhellach. Rhoddodd y Prif Weithredwr enghraifft pan gafodd y rheolau eu gweithredu gan werthuso ansawdd a gwerth am arian tra'n dyfarnu contractau. Dywedodd y gellir edrych ar waith ar fuddsoddiadau cyfalaf mewn rhagor o fanylder yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol wedi'u diweddarau.

21. ATODLEN O GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2020-21

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Atodlen o Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2020/21 i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi. Roedd yr adroddiad yn ceisio awdurdod i ddiweddarau'r Atodlen drwy ychwanegu enwau Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r aelod cyfetholedig a enwebwyd gan y Pwyllgor Addysg, Ieuenctid a Diwylliant ar ôl i'r apwyntiadau hynny gael eu cadarnhau.

Fel y cytunwyd yng nghyfarfod diweddaraf Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, byddai'r Cyngor yn cydymffurfio â Phenderfyniadau 9 a 10 Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol trwy gynnig gliniaduron i Aelodau ynghyd â lwfans band eang neu ddyfais 'MiFi'.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Phillips a ddiolchodd i'r Prif Swyddog a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Michelle Perfect.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod yr Atodlen o Gydabyddiaeth Tâl ar gyfer 2020/21 sydd ynghlwm yn yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi; a
- (b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei awdurdod i ychwanegu enwau Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar iddynt gael eu penodi a'r aelod cyfetholedig ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant ar ôl iddynt gael eu henwebu.

22. ADOLYGU PROTOCOL AELODAU / SWYDDOGION

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) Protocol Aelod/Swyddog a ddiweddarwyd sydd yn nodi sut y dylai natur y berthynas rhwng aelodau etholedig a swyddogion cyflogedig weithio. Roedd y Protocol wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Safonau ac roedd yn adlewyrchu canlyniadau gwaith ar ddelio ag achosion a Safon Sir y Fflint. Roedd y fersiwn ddiweddaraf o'r Protocol wedi cael ei ddsbarthu oedd yn cynnwys diwygiadau gan y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod diweddaraf.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Phillips a'i eilio gan y Cynghorydd Paul Johnson.

PENDERFYNWYD:

Bod y protocol diwygiedig yn cael ei gymeradwyo.

23. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dim.

24. CWESTIYNAU

Dim.

25. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLŶN Â CHOFNODION Y PWYLLGOR

Dim.

26. RHYBUDD O GYNNIG

Dim.

27. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4pm)

.....
Y Cadeirydd